



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Mynediad Trafnidiaeth Forol at Fasnach a Masnach Arforol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2018

DYDDIAD 2 Tachwedd 2018

GAN Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Mynediad Trafnidiaeth Forol at Fasnach a Masnach Arforol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2018

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio

- *Rheoliad (EEC) Rhif 2919/85 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EEC) Rhif 4055/86 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EEC) Rhif 4057/86 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EEC) Rhif 4058/86 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EEC) Rhif 3921/91 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EEC) Rhif 3577/92 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EC) Rhif 1356/96 y Cyngor (dirymu)*
- *Rheoliad (EC) Rhif 789/2004 y Cyngor (dirymu)*
- *Penderfyniad y Cyngor 83/573/EEC (dirymu)*
- *Penderfyniad 167/2006/EC (dirymu)*
- *Atodiad XIII i gytundeb yr EEA*

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Dim effaith

Pwrpas y diwygio

Pwrpas y diwygio yw i gywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth sy'n codi o ymadawiad y DU a'r Undeb Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â chaniatáu masnach arforol ar draws yr UE.

Bydd y rheoliadau Masnach Arforol yn dirymu nifer o Rheoliadau a Phenderfyniadau, gan gynnwys Rheoliad 3577/92 gan ddefnyddio'r egwyddor o ryddid i ddarparu gwasanaethau i

drafnidiaeth morol. Mae hyn yn unol ag arferion ehangach, gan bod masnach arforol wedi'i gyfyngu fel arfer ac nid yw'n cael ei ganiatáu yn y DU gan wledydd nad ydynt yn aelod wladwriaethau.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd, yn rhoi amlinelliad o effaith pob diwygiad i'w weld yma:

<https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-maritime-transport-access-to-trade-and-cabotage-revocation-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Mae'r OS hwn yn diwygio amrywiol ddeddfwriaeth yr UE sy'n gysylltiedig â gwasanaethau morgludiant/morol. Mae'r mater a gadwyd yn ôl oedd yn gysylltiedig â morgludiant yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gysylltiedig â llongau ar y môr neu unrhyw ddyfroedd eraill ac mae'n cynnwys pob agwedd ar forgludiant, gan gynnwys gwasanaethau morgludiant. Mae cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn berthnasol i gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau morgludiant i Gymru, o Gymru ac o fewn Cymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'n gymesur i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn ffordd mor gyfyngedig, a'i fod yn briodol i Lywodraeth y DU wneud hynny. Nid oes disgwyl unrhyw effaith ymarferol ar Gymru o'r newidiadau hyn.

Ar sail hyn, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Byddai cytuno i OS ledled y DU/Cymru a Lloegr yn sicrhau bod dull gydlynol ble y bo'n bosibl o baratoi y llyfr statud i weithredu'n iawn wedi i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y dull hwn o weithredu yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth ledled y DU. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.